**EITEM 14 – CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r adroddiad yn son am sefyllfa unigolyn o fewn y Cyngor ac mae sefyllfa'r unigolyn hwnnw yn greiddiol i'r cyfle sy'n codi ar gyfer ad-drefnu a chreu mwy o arbedion. Ni ellir gwahanu'r ddau heb greu adroddiad di-ystyr ac felly mae angen i'r adroddiad fod yn eithriedig.

Mae'r budd cyhoeddus ynglŷn â darparu gwybodaeth ynglŷn â'r broses penderfynu yn cael ei orbwyso gan hawl unigolyn i breifatrwydd a gwarchod gwybodaeth bersonol. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.